# Amcanion Asesu a Geiriau Gorchymyn

Tabl Cynnwys


**Trosolwg** 2

**AA1 – Gwybodaeth a Dealltwriaeth** 3

Dywedwch 3
Enwch 3
Rhestrwch 3
Nodwch 3
Diffiniwch 3
Awgrymwch 4
Disgrifiwch 4
Amlinellwch 4
Crynhowch 4

**AA2 – Cymhwyso** 5

Cymhwyswch 5
Defnyddiwch 5
Cyfrifwch 6
Darluniwch 6
Dangoswch 6
Addaswch 6
Gan gyfeirio at 6
Dehonglwch 7
Lluniwch 7

**AA3 – Dadansoddi** 8

Dadansoddwch 8
Cymharwch / Cyferbynnwch 8
Eglurwch 9
Gwahaniaethwch 9
Archwiliwch 10

**AA4 – Gwerthuso** 11

Gwerthuswch 11
Trafodwch 11
Dadleuwch 11
Argymhellwch 12
Cynghorwch 12
Cyfiawnhewch 12
Ystyriwch 12
I ba raddau 13
A ydych yn cytuno 13
Aseswch 13

## Trosolwg

Mae amcanion asesu (AAau) yn cyfeirio at y sgiliau y mae angen i chi eu dangos wrth ateb cwestiynau mewn arholiad. Ym mhwnc Busnes mae pedwar AA:

- AA1 – Gwybodaeth a Dealltwriaeth
- AA2 – Cymhwyso
- AA3 – Dadansoddi
- AA4 – Gwerthuso

Nodir pwysoliad yr AAau hyn yn y tablau isod ar gyfer Safon UG a Safon U2

| Uned | Pwysoli'r Uned | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 |
|---|---|---|---|---|---|
| UG Uned 1 | 15% (37.5%) | 5% (12.5%) | 4% (10%) | 3.5% (9%) | 2.5% (6%) |
| UG Uned 2 | 25% (62.5%) | 7% (17.5%) | 6% (15%) | 6.5% (15%) | 5.5% (14%) |
| U2 Uned 3 | 30% | 6% | 11% | 6% | 7% |
| U2 Uned4 | 30% | 8% | 5% | 8% | 9% |
| **Cyfanswm** | **100%** | **26%** | **26%** | **24%** | **24%** |

Mae gan bob amcan asesu amrywiaeth o eiriau gorchymyn a ddefnyddir i ddangos pa sgil neu sgiliau y mae angen i chi ei dangos neu eu dangos wrth ateb y cwestiwn dan sylw. Defnyddir geiriau gorchymyn er mwyn eich hysbysu o'r hyn sydd angen i chi ei wneud er mwyn ateb cwestiwn arholiad yn llwyddiannus.

Nod yr adnoddau hyn yw eich hysbysu o ystyr rhai geiriau gorchymyn cyffredin y gallwch eu gweld ar gyfer pob un o'r amcanion asesu. Rhoddir enghreifftiau o gwestiynau ar gyfer pob gair gorchymyn er mwyn i chi ddod yn gyfarwydd â'r amcanion asesu gwahanol ac fel y gallwch nodi gofynion pob sgil y gofynnir i chi ei dangos yn yr arholiad yn haws.

# AA1 – Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae AA1 yn asesu eich gallu i ddangos **gwybodaeth a dealltwriaeth** o dermau, cysyniadau, damcaniaethau, dulliau a modelau allweddol a sut mae gweithgareddau busnes yn effeithio ar unigolion a chyfundrefnau.

Nodir rhai geiriau gorchymyn cyffredin a ddefnyddir ar gyfer AA1 isod. Rhoddir amlinelliad o bob gair gorchymyn fel eich bod yn dod yn fwy cyfarwydd â sut i ymdrin â chwestiwn neu ddatganiad sy'n cynnwys y geiriau neu'r ymadroddion hyn.

## Dywedwch

## Enwch

## Rhestrwch

## Nodwch

Os gofynnir i chi **ddweud, enwi, rhestru** neu **nodi** rhywbeth dylech ddarparu **ffeithiau neu enghreifftiau cryno.** Nid oes gofyn na disgwyl i chi ysgrifennu llawer ar gyfer y gair gorchymyn hwn. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Dywedwch** beth yw dau o fanteision ymchwil marchnata.

**Enwch** ddwy elfen o gynllun busnes.

**Rhestrwch** dri math o gymhelliant ariannol a allai gael eu defnyddio gan fusnes.

**Nodwch** dri rhanddeiliad allanol i fusnes.

## Diffiniwch

Os gofynnir i chi **ddiffinio** rhywbeth (neu eiriad tebyg fel **beth a olygir gan...**) dylech **ddweud beth yw union ystyr neu gwmpas y gair neu'r ymadrodd** a roddir. Nid oes rhaid ymhelaethu ar y diffiniad a roddir gennych, ond dylai fod yn gyflawn fel bod ystyr y gair neu'r ymadrodd a ddiffinnir yn glir. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

Beth yw ystyr darbodion maint?

Diffiniwch y term ychwanegu gwerth.

## Awgrymwch

Os gofynnir i chi **awgrymu** rhywbeth dylech **gynnig syniad, rheswm neu gam gweithredu posibl.** Nid oes rhaid ymhelaethu ar yr awgrym(iadau) a wnaed gennych, oni bai y gofynnir i chi wneud hynny. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Awgrymwch** ddwy ffordd y gallai busnes newydd godi arian.

**Awgrymwch** dair ffordd y gallai busnes gynyddu cynhyrchiant staff.

## Disgrifiwch

Os gofynnir i chi **ddisgrifio** rhywbeth dylech **ddarparu nodweddion neu gofnod cryno.** Nid oes rhaid ymhelaethu ar y disgrifiad a roddwyd gennych, ond sicrhewch fod eich disgrifiad mor gyflawn â phosibl er mwyn dangos prif nodweddion yr hyn y gofynnwyd i chi ei ddisgrifio. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Disgrifiwch** brif nodweddion marchnad oligopoli.

**Disgrifiwch** brif elfennau dadansoddiad SWOT.

## Amlinellwch

Os gofynnir i chi **amlinellu** rhywbeth dylech **ddarparu disgrifiad byr neu brif nodweddion** damcaniaeth neu gysyniad er enghraifft. Nid oes rhaid ymhelaethu ar yr hyn a amlinellwyd gennych. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Amlinellwch** dair ffordd y gall busnes segmentu ei farchnad.

**Amlinellwch** ddau ddull o gynyddu cymhelliant staff.

## Crynhowch

Os gofynnir i chi **grynhoi** rhywbeth dylech **gyflwyno prif bwyntiau'r** ddamcaniaeth neu'r cysyniad dan sylw. Nid oes rhaid ymhelaethu ar y prif bwyntiau rydych wedi'u trafod. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Crynhowch** brif gamau'r broses gyllidebu.

**Crynhowch** rôl a swyddogaeth rheolwyr mewn busnes.

# AA2 – Cymhwyso

Mae AA2 yn asesu eich gallu i **gymhwyso** gwybodaeth a dealltwriaeth at amrywiol gyd-destunau busnes er mwyn dangos sut mae materion yn effeithio ar unigolion a chyfundrefnau a sut maent yn ymateb iddynt.

Gellir gweld rhai geiriau gorchymyn cyffredin a ddefnyddir ar gyfer AA2 isod. Rhoddir amlinelliad o bob gair gorchymyn fel eich bod yn dod yn fwy cyfarwydd â sut i ymdrin â chwestiwn neu ddatganiad sy'n cynnwys y geiriau neu'r ymadroddion hyn. **Efallai bydd cwestiynau sy'n cynnwys cymhwyso hefyd yn gofyn ichi arddangos amcanion asesu eraill yn eich atebion.**

## Cymhwyswch

Os gofynnir i chi **gymhwyso** rhywbeth dylech **ddefnyddio eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ddamcaniaeth neu gysyniad a chysylltu hynny â chyd-destun penodol.** Dylech sicrhau bod eich ymateb yn ddigon penodol i ymwneud â busnes neu gyd-destun penodol ac nad yw'n gyffredinol fel y gallai'r un wybodaeth fod yn gymwys yn yr un ffordd i unrhyw fusnes arall. Os rhoddir astudiaeth achos neu senario, dylech ddarllen hyn yn ofalus oherwydd gall fod gwybodaeth bwysig y gall fod angen i chi ei hystyried er mwyn eich helpu i gymhwyso'r ddamcaniaeth neu'r cysyniad. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Cymhwyswch** ddadansoddiad SWOT at Tesco.

**Cymhwyswch** Bum Grym Porter at Apple.

## Defnyddiwch

Os gofynnir i chi **ddefnyddio** rhywbeth dylech **gymhwyso'r wybodaeth a ddarparwyd at fodel, damcaniaeth neu gysyniad penodol.** Dylech sicrhau eich bod yn cymhwyso gweithdrefnau a phrosesau model penodol yn gywir ar sail dysgu blaenorol. Os rhoddir astudiaeth achos neu senario, dylech ddarllen hyn yn ofalus oherwydd gall fod gwybodaeth bwysig y gall fod angen i chi ei hystyried er mwyn eich helpu i gymhwyso'r ddamcaniaeth neu'r cysyniad. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Defnyddiwch** allosod i ragfynegi lefelau gwerthu yn y dyfodol.

**Defnyddiwch** lif arian disgowntiedig i gyfrifo'r gwerth presennol net.

Byddwch wedi dysgu am brosesau a thechnegau cysyniadau fel allosod a llif arian disgowntiedig ac felly dylech gymhwyso'r rhain at y wybodaeth benodol a roddwyd yn y cwestiwn.

## Cyfrifwch

Os gofynnir i chi **gyfrifo** rhywbeth dylech **weithio allan gwerth** beth bynnag y gofynnwyd i chi bennu ei werth. Dylech ddefnyddio'r dechneg neu'r fformiwla rydych wedi'i dysgu a'r wybodaeth a roddwyd yng nghyd-destun y cwestiwn er mwyn eich helpu gyda'r cyfrifiad. Mae'n bwysig eich bod yn cofio cynnwys yr uned neu'r unedau mesur priodol yn eich atebion. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Cyfrifwch** y cyfartaledd newidiol tri phwynt gan ddefnyddio'r data a ddarparwyd.

**Cyfrifwch** nifer yr unedau adennill costau ar gyfer R&R Ltd. gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd.

## Darluniwch

## Dangoswch

## Addaswch

Os gofynnir i chi **ddarlunio, dangos neu addasu** rhywbeth dylech **ddefnyddio diagramau er mwyn ei gwneud yn glir sut mae cysyniad neu ddamcaniaeth yn gweithio o dan amgylchiadau neu newid mewn amgylchiadau penodol.** Dylech sicrhau bod eich darlun yn ymwneud â'r wybodaeth benodol yn yr achos neu'r cyd-destun a ddarparwyd. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

Gan ddefnyddio siart adennill costau, **darluniwch** sut mae newid mewn costau yn effeithio ar y pwynt adennill costau.

Gan ddefnyddio diagram galw a chyflenwad, **dangoswch** sut mae cynnydd mewn gwariant hysbysebu yn effeithio galwadau am y busnes.

**Addaswch** y diagram galw a chyflenwad i ddangos beth fydd yn digwydd i bris gwin os yw'r tywydd yn Sbaen yn waeth na'r disgwyl.

## Gan gyfeirio at

Os bydd cwestiwn neu ddatganiad yn cynnwys yr ymadrodd '**gan gyfeirio at**' dylech ddefnyddio'r wybodaeth yn yr astudiaeth achos neu enghraifft, cysyniad neu ddamcaniaeth fusnes benodol i lywio eich ymateb. Dylech sicrhau bod eich ymateb yn ddigon penodol i ymwneud â busnes neu gyd-destun penodol ac nad yw'n gyffredinol fel y gallai'r un wybodaeth fod yn gymwys yn yr un ffordd i unrhyw fusnes arall. Dylech ddarllen unrhyw astudiaeth achos a ddarperir yn ofalus oherwydd gall fod gwybodaeth bwysig y gall fod angen i chi ei hystyried er mwyn eich helpu i gymhwyso'r ddamcaniaeth neu'r cysyniad. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Gan gyfeirio at** y testun, rhowch enghreifftiau o sut mae'r busnes yn cymell ei weithwyr.

**Gan gyfeirio at** Fatrics Ansoff, eglurwch y strategaethau gwahanol y gall busnes eu defnyddio i dyfu.

## Dehonglwch

Os gofynnir i chi **ddehongli** rhywbeth dylech **drosi gwybodaeth a gyfrifir neu a ddarperir yn ffurf adnabyddadwy y gellir ei deall drwy egluro ei hystyr.** Dylech sicrhau eich bod yn gwneud ystyr canlyniad neu set benodol o ddata yn glir drwy ddefnyddio dysgu blaenorol a thechnegau i'ch helpu. Efallai y bydd hefyd yn fuddiol defnyddio enghreifftiau neu lunio cymariaethau â chanfyddiadau amgen er mwyn eich helpu i ddehongli gwybodaeth. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Dehonglwch** ganlyniad elastigedd pris y galw rydych wedi'i gyfrifo.

**Dehonglwch** faint yr elw net rydych wedi'i gyfrifo.

## Lluniwch

Os gofynnir i chi **lunio** rhywbeth, dylech **greu diagram neu fframwaith** gan ddefnyddio damcaniaeth neu gysyniad a ddangoswyd i chi yn eich dysgu blaenorol. Dylech sicrhau eich bod yn llunio eich diagram neu fframwaith gan ystyried unrhyw wybodaeth benodol a roddwyd yn yr astudiaeth achos neu'r cyd-destun a ddarparwyd. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Lluniwch** goeden benderfyniadau yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd, **lluniwch** siart adennill costau.

# AA3 – Dadansoddi

Mae AA3 yn asesu eich gallu i **ddadansoddi** materion mewn busnesau, gan ddangos dealltwriaeth o **effaith** dylanwadau mewnol ac allanol ar unigolion a chyfundrefnau.

Dangosir rhai geiriau gorchymyn cyffredin a ddefnyddir ar gyfer AA3 isod. Rhoddir amlinelliad o bob gair gorchymyn fel eich bod yn dod yn fwy cyfarwydd â sut i ymdrin â chwestiwn neu ddatganiad sy'n cynnwys y geiriau neu'r ymadroddion hyn. **Bydd cwestiynau sy'n cynnwys dadansoddi fel arfer yn gofyn ichi arddangos amcanion asesu eraill yn eich atebion.**

## Dadansoddwch

Os gofynnir i chi **ddadansoddi** rhywbeth dylech drefnu gwybodaeth **neu destun yn gydrannau / nodweddion ac ymdrin â phob un yn fanwl drwy archwilio'r mater dan sylw yn ofalus.** Mae gwaith dadansoddi yn gofyn i chi fynd y tu hwnt i ddisgrifiad, ac yn hytrach edrych ar agweddau fel **achos ac effaith, gan roi ystyriaeth fanwl i wahanol elfennau cysyniad neu ddamcaniaeth, a chyflwyno dadleuon o blaid ac yn erbyn gan ddefnyddio enghreifftiau a thystiolaeth i gefnogi eich pwyntiau.**

Gallwch werthfawrogi bod y grefft o ddadansoddi yn gofyn am ddangos nifer o wahanol elfennau mewn ymateb cynhwysfawr i fater. Bydd dadansoddiad soffistigedig yn cynnwys datblygu cadwyn ymresymu sy'n cysylltu achos ac effaith ac a all gysylltu gwahanol bwyntiau â'r un mater. Dylech hefyd ddefnyddio enghreifftiau naill ai yng nghyd-destun busnes neu sector penodol fel y'i diffiniwyd yn y cwestiwn neu'r astudiaeth achos, os rhoddwyd un. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Dadansoddwch** sut y gall Aldi a Lidl fanteisio ar ddarbodion maint wrth i'w busnesau dyfu.

**Dadansoddwch** bwysigrwydd ansawdd i fusnes yn y sector gweithgynhyrchu.

## Cymharwch / Cyferbynnwch

Os gofynnir i chi **gymharu**, dylech **nodi ac egluro'r tebygrwydd** rhwng, er enghraifft, ddau neu fwy o gysyniadau, damcaniaethau neu ymagweddau. Os gofynnir i chi **gyferbynnu**, dylech **nodi ac egluro'r gwahaniaethau** rhwng, er enghraifft, ddau neu fwy o gysyniadau, damcaniaethau neu ymagweddau. Dylech ddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r cysyniadau neu'r damcaniaethau yn eich ateb, efallai drwy ddarparu diffiniad neu ddisgrifio nodweddion y pethau hynny y gofynnwyd i chi eu cymharu neu eu cyferbynnu. Fel rhan o'ch ymateb, dylech roi enghreifftiau o'r astudiaeth achos, os rhoddwyd un, a / neu o'ch gwybodaeth eich hun er mwyn cefnogi'r pwyntiau rydych yn eu gwneud. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Cymharwch** gymhellion ariannol ac anariannol fel dull o gymell gweithwyr.

**Cyferbynnwch** sector cyhoeddus a sector preifat yr economi.

## Eglurwch

Os gofynnir i chi **egluro** rhywbeth, dylech **roi manylion a rhesymau dros sut a pham mae rhywbeth fel y mae.** Gellir hefyd ofyn i chi egluro term neu ymadrodd a ddefnyddir mewn cyd-destun penodol. Dylai eich ymateb hefyd roi ystyr clir o'r hyn y gofynnwyd i chi ei egluro a dylech sicrhau bod digon o fanylion fel y gellir cyfleu unrhyw **achos ac effaith** yn glir fel rhan o'ch esboniad. Hefyd, lle y bo'n briodol, dylech roi enghreifftiau er mwyn gwneud eich esboniad yn gryfach ac yn gliriach. Mae eglurwch yn air gorchymyn cyffredin iawn yn rhestr wirio'r fanyleb; mae'n ymddangos yn y rhan fwyaf o'r pynciau rydych wedi ac y byddwch yn eu hastudio. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Eglurwch** pam bod busnes yn llunio cynllun busnes.

**Eglurwch** sut y gall newidiadau mewn polisi cyllidol effeithio ar fusnesau.

Weithiau gall y gair gorchymyn '**eglurwch**' hefyd gael ei ddefnyddio ar gyfer cwestiynau tariff is fel:

**Eglurwch** beth yw ystyr y term ychwanegu gwerth.

**Eglurwch** beth yw ystyr darbodion maint.

Nid oes angen ysgrifennu cymaint ar gyfer y mathau hyn o ddatganiadau tariff is â'r datganiadau enghreifftiol cynharach ar gyfer 'eglurwch'. Mae angen i chi fod yn glir ynghylch beth sydd ei angen o eiriad penodol y datganiad a welwch a chael eich llywio i raddau o ran faint o fanylder sydd ei angen gan nifer y marciau sydd ar gael ar gyfer y gair gorchymyn hwn.

## Gwahaniaethwch

Os gofynnir i chi **wahaniaethu**, dylech **nodi ac egluro'r gwahaniaethau** rhwng dau neu fwy o gysyniadau, damcaniaethau neu ymagweddau, gan wneud y gwahaniaethau hyn yn glir iawn, drwy ddefnyddio enghreifftiau i gefnogi eich pwyntiau. Dylech ddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r cysyniadau neu'r damcaniaethau yn eich ateb, efallai trwy gynnig diffiniad neu ddisgrifiad o nodweddion y pethau hynny y gofynnwyd i chi eu gwahaniaethu. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Gwahaniaethwch** rhwng ymchwil marchnata meintiol ac ansoddol.

**Gwahaniaethwch** rhwng newid a gynlluniwyd a newid nas cynlluniwyd.

## Archwiliwch

Os gofynnir i chi **archwilio** rhywbeth, dylech **roi ystyriaeth agos a manwl** i gysyniad, damcaniaeth, mater neu gam gweithredu penodol. Yn eich ymateb dylech bennu'r materion o bwys a chraffu ar bob un yn ofalus a chynnwys achos ac effaith yn y pwyntiau a wnewch. Dylech hefyd roi enghreifftiau a thystiolaeth i gefnogi eich pwyntiau, gan ddefnyddio'r astudiaeth a'ch gwybodaeth eich hun i'ch helpu. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Archwiliwch** y gwahanol ddulliau arfarnu y gall busnes eu defnyddio i werthuso perfformiad gweithwyr.

**Archwiliwch** rôl pris wrth bennu'r galw am fusnesau.

## AA4 – Gwerthuso

Mae AA4 yn asesu eich gallu i **werthuso** gwybodaeth feintiol ac ansoddol er mwyn llunio barn hysbys a chynnig atebion seiliedig ar dystiolaeth i faterion busnes.

Dangosir rhai geiriau gorchymyn cyffredin a ddefnyddir ar gyfer AA4 isod. Rhoddir amlinelliad o bob gair gorchymyn fel eich bod yn dod yn fwy cyfarwydd â sut i ymdrin â chwestiwn neu ddatganiad sy'n cynnwys y geiriau neu'r ymadroddion hyn. **Bydd cwestiynau sy'n cynnwys cymhwyso fel arfer yn gofyn ichi arddangos amcanion asesu eraill yn eich atebion. Mewn cwestiynau ymestynnol yn aml bydd AA3 ac AA4 yn cael eu hasesu gyda'i gilydd.**

### Gwerthuswch

Os gofynnir i chi **werthuso** rhywbeth, dylech **lunio barn drwy bwyso a mesur y pwyntiau o blaid ac yn erbyn** yr hyn y gofynnir i chi ei werthuso. Yn eich ymateb, dylech **ddyfarnu i ba raddau rydych yn cytuno â datganiad, drwy gyflwyno tystiolaeth ac enghreifftiau o ystod eang o ffynonellau sy'n cytuno â'r datganiad dan sylw ac yn ei wrth-ddweud.** Yn olaf, dylech **ddod i benderfyniad terfynol ynghylch y ffactorau pwysicaf yn eich barn chi sydd wedi arwain at eich casgliad a'u cyfiawnhau, gan gynnwys unrhyw ffactorau sydd wedi effeithio ar eich barn, fel ansawdd y wybodaeth sydd ar gael.** Dylech gefnogi'r pwyntiau yn eich dadl gyda thystiolaeth ac enghreifftiau o ddamcaniaeth ac ymarfer. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Gwerthuswch effaith ffactorau economaidd a chymdeithasol.**

**Gwerthuswch** effaith penderfyniadau prisio ar fusnes a'i randdeiliaid.

### Trafodwch

### Dadleuwch

Os gofynnir i chi **drafod** neu **ddadlau** rhywbeth, dylech **archwilio mater yn fanwl drwy ymdrin ag amrywiaeth o syniadau a rhesymau allweddol o blaid ac yn erbyn y mater.** Dylech **ddod i gasgliad ar ôl cyflwyno achos rhesymegol.** Yn eich ymateb, dylech **ddyfarnu i ba raddau rydych yn cytuno â datganiad, drwy gyflwyno tystiolaeth ac enghreifftiau o ystod eang o ffynonellau. Dylech ddod i benderfyniad terfynol ynghylch y ffactorau pwysicaf yn eich barn chi sydd wedi arwain at eich casgliad a chyfiawnhau hyn.** Dylech gefnogi'r pwyntiau yn eich dadl gyda thystiolaeth ac enghreifftiau. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Trafodwch** y farn mai'r adran farchnata yw swyddogaeth bwysicaf busnes.

Dylai busnesau ganolbwyntio ar wneud yr elw mwyaf posibl yn hytrach na bod yn foesegol. Cyflwynwch **ddadl** ar gyfer y datganiad hwn.

## Argymhellwch

## Cynghorwch

Os gofynnir i chi **wneud argymhelliad** neu **roi cyngor**, dylech **gyflwyno / awgrymu cynnig sy'n seiliedig ar resymau wedi'u cefnogi.** Eich rôl yw cyflwyno camau gweithredu i fusnes felly dylech sicrhau bod hyn yn cael ei nodi'n glir yn eich ymateb. Dylech ystyried amryw bwyntiau o blaid yr argymhelliad a gynigir neu'r cyngor a roddir gennych, ond sicrhewch eich bod yn cydbwyso'r rhain â phwyntiau i'r gwrthwyneb. Dylech **ddod i benderfyniad terfynol ynghylch y ffactorau pwysicaf yn eich barn chi sydd wedi arwain at eich casgliad a'u cyfiawnhau.** Dylech gefnogi'r pwyntiau yn eich dadl gyda thystiolaeth ac enghreifftiau. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Argymhellwch** system dalu effeithiol y gallai busnes sy'n gwerthu pecynnau meddalwedd i fusnesau eraill ei defnyddio er mwyn cynyddu cymhelliant staff.

**Rhowch gyngor** i Thomas Cook PLC ar b'un a ddylai dderbyn yr archeb arbennig a nodir yn yr astudiaeth achos.

## Cyfiawnhewch

Os gofynnir i chi **gyfiawnhau** rhywbeth, dylech **gyflwyno achos rhesymegol gan ddefnyddio tystiolaeth ategol o ddamcaniaeth ac ymarfer i egluro pam y dylai rhywbeth ddigwydd mewn ffordd benodol.** Dylech gyflwyno dadl gytbwys, gan wneud pwyntiau o blaid ac yn erbyn y farn a ystyrir. Mae'n bwysig eich bod yn darparu tystiolaeth ac enghreifftiau i gefnogi'r pwyntiau a wnewch, oherwydd bydd hyn yn helpu i ddangos eich sgiliau cyfiawnhau. Dylech **ddod i benderfyniad terfynol ynghylch y ffactorau pwysicaf yn eich barn chi sydd wedi arwain at eich casgliad a'u cyfiawnhau.** Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Cyfiawnhewch** yr angen i fusnesau gynnal ymchwil marchnata.

Dylai busnesau sydd am wella ansawdd eu cynhyrchion fuddsoddi mwy mewn technoleg a llai mewn adnoddau dynol. **Cyfiawnhewch** y farn hon.

## Ystyriwch

Os gofynnir i chi **ystyried** rhywbeth, dylech **adolygu gwahanol wybodaeth, barn neu safbwyntiau mewn perthynas â'r cwestiwn neu'r datganiad dan sylw.** Ar gyfer pob pwynt a wnewch, dylech **gynnig gwrth-bwynt, yn ogystal â defnyddio tystiolaeth ac enghreifftiau. Dylech ddod i benderfyniad terfynol ynghylch y ffactorau pwysicaf yn eich barn chi sydd wedi arwain at eich casgliad a'u cyfiawnhau.** Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Ystyriwch** y farn ei bod yn well i'r rhan fwyaf o fusnesau ym Mhrydain fod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

**Ystyriwch** y dulliau y gall cwmni gweithgynhyrchu paent eu defnyddio i gynyddu cyfranogiad gweithwyr o fewn y busnes.

## I ba raddau

## A ydych yn cytuno

Os bydd cwestiwn yn cynnwys yr ymadrodd '**I ba raddau**' a / neu '**A ydych yn cytuno**', dylech **gynnal asesiad trylwyr o'r dystiolaeth o blaid ac yn erbyn dadl.** Gallech wneud hyn drwy **egluro / datblygu un ochr o ddadl ac amodi'r pwyntiau a wneir neu drwy lunio dadleuon amgen. Dylech ddod i gasgliad wedi cyflwyno achos rhesymegol gan ddefnyddio enghreifftiau ac ystyried gwahanol safbwyntiau o ran i ba raddau rydych yn cytuno â'r datganiad dan sylw.** Yn eich ymateb, dylech **ddyfarnu i ba raddau rydych yn cytuno â datganiad.** Dylech **ddod i benderfyniad terfynol ynghylch y ffactorau pwysicaf yn eich barn chi sydd wedi arwain at eich casgliad a chyfiawnhau hyn.** Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**I ba raddau y** byddai cynnydd yng nghyfradd gyfnewid y bunt yn creu problemau i fusnesau yn y DU?

Bydd cynllun busnes yn sicrhau bod menter fusnes yn llwyddo. **I ba raddau rydych yn cytuno** â'r datganiad hwn?

## Aseswch

Os gofynnir i chi **asesu** rhywbeth, dylech **lunio barn hysbys drwy bwyso a mesur dadleuon o blaid ac yn erbyn** y mater neu'r cysyniad dan sylw. Dylech ddarparu tystiolaeth ac enghreifftiau yn eich ymateb a datblygu llinellau ymresymu, er mwyn dod i **benderfyniad terfynol ynghylch y ffactorau pwysicaf yn eich barn chi sydd wedi arwain at eich casgliad a'u cyfiawnhau.** Dylech hefyd ystyried yr astudiaeth achos a ddarparwyd er mwyn cymhwyso eich pwyntiau at y cyd-destun yn benodol. Ymhlith yr enghreifftiau o gwestiynau y gallech ddod ar eu traws mae:

**Aseswch** ddefnyddioldeb y rhagfynegiad gwerthiant i fusnes sy'n gwerthu corachod gardd.

**Aseswch** y farn nad yw Matrics Boston yn adnodd gwerthfawr iawn i fusnesau.